# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2014-2015

Mae Adroddiad Blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei gweithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2015**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o anghenraid yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe

| **Cynghorydd:** | Robert Francis-Davies | Adran Etholiadol: | Treforys |
|---|---|---|---|

| **Cyflog Uwch Portffolio'r Cabinet/y Weithrediaeth:** | Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu (hyd at 17 Medi 2014)<br>Aelod y Cabinet dros Fenter, Datblygu ac Adfywio (o 17 Medi 2014) |
|---|---|

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Bues i'n mynychu cyfarfodydd PACT (Yr Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd), cyfarfodydd preswylwyr a chyfarfodydd y Siambr Fasnach.

Ynghyd â'm cydweithwyr ward, roeddwn yn gyfrifol am drefnu arddangosfeydd blodeuol ar draws ward Treforys.
Trefnais i addurniadau Nadolig gael eu gosod yn Stryd Woodfield dros y Nadolig ac es i'r orymdaith gyda'm cydweithwyr gan helpu i ddenu dros 2,500 o bobl i'r digwyddiad.

Mynychais i gyfarfodydd ymgynghori â phreswylwyr ynglŷn â materion cynllunio yn ward Treforys.
Cynhaliais gymorthfeydd rheolaidd a chymorthfeydd stryd gyda'm cydweithwyr. Ymgynghorais â grwpiau chwaraeon yn ward Treforys ynglŷn â ffyrdd newydd o gyflwyno gwasanaethau.

Bues i'n adrodd ac yn gweithredu ar sawl mater yn fy ward megis palmentydd, tyllau ffordd a phroblemau traffig.

## Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol gan yr adran etholiadol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Penodiadau | 3 | / | 3 | 100 | % |
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 1 | 7 | / | 7 | 100 | % |
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 2 | 6 | / | 8 | 75 | % |
| Pwyllgor Archwilio | 2 | / | 3 | 67 | % |
| Y Cabinet | 10 | / | 11 | 91 | % |
| Y Cyngor | 17 | / | 17 | 100 | % |
| Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd | 0 | / | 2 | 0 | % |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 7 | / | 7 | 100 | % |
| Panel Ariannu Allanol | 2 | / | 3 | 67 | % |
| Grŵp Partneriaeth AoHNE Gŵyr | 3 | / | 3 | 100 | % |
| Grŵp Ymgynghorol y Cynllun Datblygu Lleol | 1 | / | 1 | 100 | % |
| **YN GYFFREDINOL** | **58** | **/** | **65** | **89** | **%** |

Dangosir uchod % presenoldeb sy'n seiliedig ar aelodaeth pwyllgor.

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd**

Roeddwn yn gadeirydd y Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu a Phwyllgorau Rheoli Datblygu Ardal 1 ac Ardal 2 cyn dod yn Aelod y Cabinet dros Fenter, Datblygu ac Adfywio ar 17 Medi 2014. Roeddwn hefyd yn gadeirydd AoHNE Gŵyr tan 17 Medi 2014.

Bues i'n siarad mewn sawl cyfarfod e.e. cyfarfodydd y Ffederasiwn Busnesau Bach (FfBB), Fforwm Busnes Abertawe a sefydliadau tebyg eraill.

Roeddwn yn un o lywodraethwr Ysgol Gyfun Treforys.

**Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Es i weithgor a oedd yn ymwneud ag addurniadau blodeuol ar gyfer Treforys.
Es i weithgor a oedd yn ymwneud ag addurniadau Nadolig a Gorymdaith y Nadolig.
Mynychais i gyfarfodydd ymgynghori ynglŷn â Chwarel Cwmrhydyceirw.

**Adran 5: Dysgu a Datblygu**

Es i'r sesiwn hyfforddi canlynol:

12/11/2014 - Recriwtio a Dethol

Yn ogystal, ymgymerais ag amrywiaeth o gyrsiau hyfforddi ynglŷn â chynllunio.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Roeddwn yn un o lywodraethwr Ysgol Gyfun Treforys;
Cyfarwyddwr Pwll Cenedlaethol Cymru Cyf.
Cyfarwyddwr Cwmni Rheoli Stadiwm Abertawe Cyf., Stadiwm Liberty
Cyfarwyddwr Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Cyf.
Cyfarwyddwr BID Abertawe (Ardal Gwella Busnes Abertawe) Cyf.

Bues i'n mynychu cyfarfodydd yr uchod yn rheolaidd.

**Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr**

Cyflog Uwch: £22,000 – Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu (hyd at 17 Medi 2014)
Cyflog Uwch: £32,000 – Aelod y Cabinet dros Fenter, Datblygu ac Adfywio (o 17 Medi 2014)

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

## Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2014-2015

| |
|---|
| Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma: http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0 |

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 05.08.15 |